# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 11 Rhagfyr 2019

Amser: 08.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6222

SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

## - Papurau wedi'u diweddaru

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

---

### 2 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): sesiwn dystiolaeth 2

(09.00-09.45) (Tudalennau 1 - 87)

John Bader, Cadeirydd, Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Greg Owens, Is-gadeirydd, Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

**Dogfennau atodol:**

Brîff y Gwasanaeth Ymchwil [Saesneg yn unig]

Briff ychwanegol: crynodeb o'r Bil

ELGC(5)-35-19 Papur 1

### 5 Local Government and Elections (Wales) Bill: evidence session 5

(11.40-12.10) (Tudalen 88)

Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

**Dogfennau atodol:**

ELGC(5)-35-19 Papur 10 [Saesneg yn unig]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Papur ar gyfer y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

**Y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**

**Cyflwyniad**

1.1. Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn falch o gael y cyfle i wneud sylwadau ar y Bil. Rydym wedi cael cais i ddatgan ein tystiolaeth sy'n ymwneud â Rhannau 4 a 7 o'r Bil, ond mae gennym hefyd sylwadau i'w gwneud ar Ran 3 – Hybu mynediad at Lywodraeth Leol.

1.2. Rydym yn arfer ymweld â phob un o'r 22 prif gyngor yn fuan ar ôl pob etholiad fel rhan o'n proses o gasglu tystiolaeth, er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r problemau a'r materion y mae angen eu gwyntyllu a'u hadlewyrchu yn ein Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol. Ar ôl yr etholiadau yn 2017 fe wnaethom gwrdd â dros 450 o aelodau etholedig, yr holl arweinwyr, llawer o aelodau o weithrediaeth cynghorau ynghyd â'r prif weithredwyr a'r uwch swyddogion.

1.3. Yn ystod y blynyddoedd wedyn, rydym yn cwrdd â'r 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r 3 awdurdod Tân ac Achub.

1.4. Mae gennym hefyd raglen o gyswllt parhaus â chynghorau cymuned a thref, drwy drefniadau cyswllt â chynghorau sir yn bennaf.

1.5. Yn sgil y cyswllt parhaus yma, mae gennym wybodaeth gynhwysfawr am y sector llywodraeth leol yng Nghymru.

**Rhan 3 Hybu mynediad at Lywodraeth Leol**

2.1. O ran cynrychiolaeth ddemocrataidd ar lefel leol, cydnabyddir yn eang fod amrywiaeth yr aelodau yn dal yn annerbyniol. Gwelsom gynnydd calonogol yn 2017 o ran nifer y menywod a phobl ifanc o'r ddau ryw gafodd eu hethol yn aelodau o'r newydd. Ond nid oedd hwn yn batrwm cyffredinol, ac mae bwlch sylweddol o hyd – yn enwedig o ran lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anabledd.

2.2. Mae'r naill Weinidog ar ôl y llall wedi ein hannog i ddarparu fframwaith sy'n cefnogi'r posibilrwydd o wella amrywiaeth fel rhan o'n cylch gwaith statudol. Dyma'r elfennau sy'n rhan o'n swyddogaethau statudol ac sy'n cyfrannu at y nod hwn:

- Cymorth ariannol
- Darparu'r cymorth angenrheidiol er mwyn i aelodau allu gweithredu'n effeithlon ac yn ddiogel.

Cydnabyddiaeth Ariannol

2.3. Clywir beirniadaeth yn llawer yn rhy aml am daliadau i gynrychiolwyr etholedig, felly rydym yn dweud yn glir yn ein Hadroddiadau nad oes modd cael democratiaeth heb unrhyw gostau.

2.4. Nid taliadau i gynghorwyr yw'r unig ffactor i helpu i wella amrywiaeth, ond mae'n ffactor pwysig. Roedd llawer o'r aelodau newydd a etholwyd yn 2017 wedi dweud yn glir nad y drefn dalu oedd y prif ffactor wrth benderfynu sefyll yn yr etholiad, ond na fyddent wedi gallu sefyll oni bai am hynny. Rydym yn ymwybodol bod llawer o aelodau meinciau cefn yn ei chael hi'n anodd yn ariannol gyda lefel y taliadau presennol.

2.5. Mae cyfyngiadau ariannol ar awdurdodau lleol wedi effeithio ar y gallu i gynyddu cyflog blynyddol aelodau meinciau cefn ar raddfa ddigonol. Mae'r Panel yn rhwym wrth ei gyfyngiadau statudol i ystyried fforddiadwyedd ei benderfyniadau. Felly yn ystod blynyddoedd cynharach y cyni, roedd cyflogau cynghorwyr wedi colli tir yn erbyn y meincnod gwreiddiol, a oedd yn sicrhau bod y taliadau i aelodau meinciau cefn yn cyfateb i 3 rhan o 5 o'r enillion cyfartalog yng Nghymru. Yn fwy diweddar, rydym wedi gallu

cynyddu'r taliadau ychydig bach, ond mae'r cyflog sylfaenol presennol – sef £13868 y flwyddyn – dros £2000 yn llai nag y byddai yn erbyn y meincnod gwreiddiol. Yn realistig, mae'n annhebygol y bydd y sail wreiddiol yn cael ei hailgyflwyno. Rydym yn dal i ystyried methodolegau eraill er mwyn dod i gasgliad priodol ym mhob Adroddiad Blynyddol. Wrth wneud ein penderfyniad blynyddol ynghylch cyflogau, mae'n rhaid i ni gael cydbwysedd rhwng sicrhau tegwch i'r 1254 o gynghorwyr, a fforddiadwyedd i'r 22 prif gyngor.

Darparu cymorth priodol

2.6. Rydym wedi dweud yn glir, ac yn dal i ddweud yn glir, na ddylai aelodau fod ar eu colled wrth gyflawni eu rôl, ac na ddylid disgwyl iddynt ddefnyddio eu cyflog er mwyn gallu gweithredu'n effeithlon. Yn ystod y blynyddoedd cynharach, roedd rhai cynghorau yn gofyn i aelodau dalu am gyfrifiadur/ffonau ac ati ar gyfer gwaith y cyngor. Rydym wedi dweud yn glir bod hyn yn amhriodol.

2.7. Mae cyfryngau cymdeithasol wedi cael effaith fawr ar swyddogaeth cynghorydd ward. Mae wedi newid argraffiadau llawer o'r etholwyr, a dywedodd y mwyafrif helaeth o'r aelodau roeddem wedi cwrdd â nhw fod cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu eu llwyth gwaith a gofynion a disgwyliadau'r bobl maen nhw'n eu cynrychioli. Mae graddfa'r gamdriniaeth a'r bygythiadau a welir ar hyn o bryd yn fwy sinistr. Rydym wedi dweud yn glir ei bod hi'n hollbwysig bod cynghorau'n darparu'r cymorth angenrheidiol i ddiogelu aelodau unigol sy'n cael bygythiadau o drais. Un o'r ceisiadau a glywsom lawer gwaith oedd cael gwared ar y gofyniad statudol i gyhoeddi cyfeiriadau cartref aelodau unigol. Rydym yn deall bod y newid yma wedi'i gynnwys yn y Bil.

2.8. Mae cymorth ariannol ar gyfer anghenion gofal yn ffactor pwysig er mwyn sicrhau nad yw unigolion yn cael eu dieithrio oherwydd bod ganddynt ymrwymiadau gofal neu ofynion gofal personol. Yn 2003 cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru – fel yr oedd ar y pryd – Gynllun Lwfans Gofal, a chafodd y cyfrifoldeb dros bennu'r polisi yn y cyswllt yma ei drosglwyddo i'r Panel pan gafodd ei sefydlu. Er ei bod yn amlwg bod angen cymorth ar lawer o aelodau sydd â chyfrifoldebau gofal, ychydig iawn sydd wedi manteisio ar hynny. Un o'r rhesymau am hynny oedd y feirniadaeth gyhoeddus yn dilyn y cyhoeddiad blynyddol. Hefyd, mae tystiolaeth anecdotaidd o feirniadaeth gan gyd-gynghorwyr. Rydym wedi newid y

cymorth ariannol yma drwy ad-dalu costau yn hytrach na rhoi lwfans, er mwyn sicrhau na ellir awgrymu y gallai unigolyn "wneud elw". Rydym hefyd wedi newid trefniadau'r cyhoeddiad, i ofalu nad oes modd adnabod unrhyw unigolyn. Er hynny, nid yw'r nifer sy'n manteisio ar y cymorth wedi cynyddu'n sylweddol. Rydym yn dal yn credu bod hyn – fel rhan o becyn cyffredinol – yn bwysig er mwyn denu ymgeiswyr o gefndiroedd mwy amrywiol i sefyll mewn etholiadau yn y dyfodol. Er bod costau gofal yn cael eu had-dalu, mae Cyllid a Thollau EM wedi penderfynu bod hynny'n incwm trethadwy, sy'n golygu y gallai rhai aelodau sy'n hawlio'r costau gofal fod ar eu colled.

**Rhan 4 Gweithrediaethau, Aelodau, Swyddogion a Phwyllgorau Awdurdodau Lleol**

3.1. Rydym yn nodi'r cynnig i'w gwneud yn orfodol i benodi prif weithredwr â chyfrifoldebau statudol penodol ar gyfer y prif gynghorau. Yn ein barn ni, er nad yw'n rhan o'n cylch gwaith, mae hwn yn gyfeiriad priodol. Bydd yn sicrhau mwy o gysondeb rhwng cynghorau drwy egluro beth yw'r rôl a dyletswyddau'r rheini sy'n gwneud y swydd.

3.2. Mae Cymal 61 yn cynnig diwygio Adran 143A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, er mwyn defnyddio'r term cydnabyddiaeth ariannol yn lle cyflog. Bydd y newid hwn yn arwain at oblygiadau i'n rôl ni wrth ystyried cynigion gan gynghorau i newid y taliad a wneir i'w prif weithredwr. Roedd Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) 2013 wedi diwygio'r Mesur mewn perthynas â chylch gwaith y Panel. Cafodd Adran 143A ei mewnosod ac mae'n mynnu bod yr awdurdod, mewn rhai amgylchiadau, yn ymgynghori â'r Panel ac yn ystyried ein hargymhellion.

3.3. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn berthnasol hefyd i'r Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig yn y 3 Awdurdod Tân ac Achub (y Prif Swyddog Tân fel arfer). Bydd angen i'r Bil ddweud yn glir a yw'r diwygiad yng nghymal 61 yn eithrio Awdurdodau Tân ac Achub.

3.4. Rydym yn ystyried Canllawiau Llywodraeth Cymru wrth weinyddu'r elfen hon o'n swyddogaeth, a bydd angen diweddaru'r canllawiau pan gaiff y Bil ei gyflwyno.

3.5. Mae Cymal 62 yn egluro'r hyn a fydd yn digwydd pan fydd Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i awdurdod sydd wedi anwybyddu

argymhelliad y Panel o dan Adran 143A. Mae'r Panel o blaid hyn, oherwydd mae wedi bod yn fater dadleuol yn y gorffennol.

Penodi Cynorthwywyr gweithrediaethau

3.6. Yn ystod ein hymweliadau yn 2017, dywedodd llawer o arweinwyr cynghorau y byddent yn hoffi gallu penodi dirprwyon neu gynorthwywyr ar gyfer aelodau'r cabinet. Roeddent o'r farn y byddai'n cynnig cyfleoedd datblygu i unigolion a allai fod yn aelodau o'r weithrediaeth yn y dyfodol, ac yn galluogi'r cabinet i weithredu'n well gan y byddai cymorth ar gael i ddeiliaid portffolio prysur. Mae'n bosib y byddai'n gwella amrywiaeth y cabinet. Bydd Cymal 63 yn gwneud darpariaeth ar gyfer penodiadau o'r fath, ond bydd hynny'n arwain at ganlyniadau i'r Panel.

3.7. Ar hyn o bryd, mae pob prif gyngor yn cael uchafswm o swyddi uwch sy'n gallu bod yn swyddi â thâl. Mae'r uchafsymiau hyn (neu'r capiau) wedi'u nodi yn ein Hadroddiad Blynyddol, ac yn amrywio gan ddibynnu ar ba un o'r 3 grŵp poblogaeth y mae'r cyngor yn perthyn iddo. Mae gennym ni'r disgresiwn i newid y cap, felly os yw'r cynorthwywyr yn haeddu cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol, mae'n bosib trefnu hynny yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, mae uchafswm statudol ar nifer yr aelodau sy'n gallu cael eu talu am wneud swydd uwch, a dyma sy'n rheoli'r sefyllfa ym mhob achos. Yr uchafswm yw 50% o gyfanswm aelodau'r cyngor, a rhaid cael sêl bendith Gweinidogion Cymru yn benodol er mwyn ei newid. Byddai hyn yn sicr yn effeithio ar ddau gyngor – Ynys Môn a Merthyr Tudful. Byddai'r ddau gyngor yn methu penodi Cynorthwywyr sy'n cael eu talu, oni bai eu bod yn tynnu taliadau oddi wrth rai pobl sy'n cael eu talu am wneud swydd uwch. Yn hytrach na chyflwyno ceisiadau unigol i Weinidogion Cymru ddiystyru'r uchafswm statudol, efallai y byddai'n fwy priodol dirprwyo'r safbwynt statudol i'r Panel.

Rhannu swydd: arweinyddion gweithrediaeth ac aelodau gweithrediaeth

3.8. Mae llawer o arweinwyr wedi sôn am y posibilrwydd o rannu swydd ar gyfer rhai o bortffolios y cabinet. Yn eu barn nhw, byddai hynny'n ehangu cyfleoedd ac yn gwella amrywiaeth mewn gweithrediaethau. Y drafferth wrth weithredu hyn hyd yma yw'r ffaith mai 10 aelod o'r Weithrediaeth yw'r uchafswm statudol ar hyn o bryd. Byddai'r cynigion yng nghymal 64 yn datrys hyn, ac yn galluogi'r Panel i lunio trefniadau priodol ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol er mwyn bodloni gofynion cyngor unigol.

Absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau o awdurdodau lleol

3.9. Mae ein Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol yn cynnwys hawl i roi cydnabyddiaeth ariannol i aelod sy'n gymwys ar gyfer absenoldeb teuluol, ac mae'n adlewyrchu'r rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd. Byddai'r Panel yn addasu'r Fframwaith er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â newidiadau i'r rheoliadau.

3.10. Mae'r Pwyllgor yn cael ar ddeall bod ein Fframwaith hefyd yn cynnig darpariaeth ar gyfer cyfnodau hir o salwch ymysg aelodau.

**Rhan 7 Uno ac Ailstrwythuro Prif Ardaloedd**

Pennod 4: Trefniadau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer prif gynghorau newydd

4.1. Mae'n amhosibl rhagweld a ddaw cynnig i law gan ddau neu fwy o gynghorau sy'n bodoli ar hyn o bryd, na phryd y bydd hynny'n digwydd. Ond, mae'n bwysig bod deddfwriaeth briodol ar waith i reoli'r broses yn effeithiol. Dylai'r broses gynnwys trefniadau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y cyngor cysgodol a'r prif gyngor newydd.

4.2. Mae'r cynigion yn yr adran yma o'r Bil yn cyd-fynd yn fras â chylch gwaith presennol y Panel, a bennwyd gan y Mesur. Y prif ychwanegiad yw ymestyn y diffiniad o "awdurdodau cymwys" i gynnwys cynghorau cysgodol.

4.3. Os byddai cynnig i uno yn dod i law, byddai'r Panel yn ystyried y cynnig i gael gwybod a fyddai'r cyngor newydd yn cyd-fynd â Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol y Panel a fyddai ar waith ar y pryd, neu a fyddai angen trefniadau pwrpasol a fyddai'n berthnasol i'r cyngor newydd yn unig.

4.4. Ar hyn o bryd, nid ydym yn pryderu am y trefniadau a nodwyd yng nghymalau 141-144.

**Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**
**4$^{ydd}$ Rhagfyr 2019**

**Equality, Local Government and Communities Committee**

**Local Government and Elections (Wales) Bill – summary of main points from the Future Generations Commissioner for Wales**

**Corporate Joint Committees:**

- Another layer of collaboration
- How does this link to PSBs and other partnership groupings? (see our letter to Julie James sent this morning)
    - In particular how will their objectives link back to PSBs and PBs well-being objectives? We need reassurance that there will be integration, and of the consequences for our Office – will we monitor and assess their progress too?
- Complex governance arrangements, need to make sure they are clear
- Functions – only some functions - might be beneficial to review the list to see if other functions should be added to be most efficient at this level
- Need leadership from WG to avoid creating an even more complicated system which could prevent participation

**Diversity and Participation:**

- Overall good (broadcasting, access to documents, plain language) but missed some opportunities to integrate with our Act – talk about participation not involvement, need to be able to be involved before decision is made, etc.

**Performance:**

- Self-assessment and peer review welcome – strong evidence on the benefit of such practices
- The test for performance must include WBFGA (progress towards goals, meeting objectives and using 5 ways of working)
- Value for money guidance also needs to be aligned to the Act
- Review panels need to be fully aware of the Act, my advice and monitoring and assessing need to be taken into account by the panel
- Our self-reflexion tool can be used as includes both self-assessment and peer review
- Ministers interventions should also take account of my advice and assessments
- Governance and Audit Committees will have overview so they need full understanding of the Act (will need proper resourcing and support).